



Annwyl Riant/Warcheidwad

Yn dilyn cyhoeddiad y llywodraeth ar drefniadau ail-agor ysgolion, mae hi wedi bod yn brysur ym Mhenweddig wrth i ni roi'r trefniadau mewn lle. Mae llawer o wybodaeth wedi eich cyrraedd ar ddydd Mercher, a bydd mwy yn dod atoch dros yr wythnos nesaf.

### Asesiadau TGAU / UG / Safon Uwch

Cyhoeddwyd lawer o wybodaeth am y prosesau asesu ar gyfer y rhain heddiw. Byddwn ni'n cynllunio ar gyfer y rhain a chyfathrebu'r prosesau asesu i chi a'r disgyblion dros yr wythnosau nesaf. Bydd y disgyblion yn cael cyfle i dderbyn graddau cychwynnol yn ystod mis Mehefin cyn derbyn y rhain terfynol ar ddechrau Awst.

### Diwrnod Lles a Dal lan

Bydd dydd lau yn ddiwrnod i ddisgyblion cael cyfle i dal lan. Bydd hwn yn gyfle da i ddisgyblion BI10-13 paratoi am ddychwelyd i'r ysgol. Ni fydd gwersi byw ar y dydd a bydd staff yn paratoi at ddychwelyd i'r ysgol.

### Profion LFT i ddisgyblion

Rydyn ni'n aros i dderbyn profion LFT i ddsbarthu i ddisgyblion sy'n dychwelyd. Mae rhai ceisiadau wedi dod yn gofyn am y rhain cyn i ddisgyblion ail-ddechrau, ac os byddant yn cyrraedd yr ysgol byddwn ni'n gwneud trefniadau i'w dosbarthu i rai sydd eisiau eu casglu.

### Lluoedd arfog

Mae'r llywodraeth yn cefnogi teuluoedd aelodau a chyn-aelodau o'r lluoedd arfog trwy SSCE ([www.sscecymru.co.uk](http://www.sscecymru.co.uk)). Maen nhw'n gofyn i ysgolion rhannu gwybodaeth am ddisgyblion sydd yn blant i aelodau a chyn-aelodau'r lluoedd arfog a'r lluoedd arfog wrthgefn. Os ydy hwn yn berthnasol i'ch teulu chi ac rydych chi'n fodlon i ni rannu hwn gyda'r SSCE, anfonwch neges i'r arweinydd cynnydd a lles ar gyfer eich plentyn.

### Neges gan Llyfrgell Ceredigion ar gyfer diwrnod y llyfr

*"Bydd ymgyrch **POB PLENTYN YN AELOD, LLYFRGELL CEREDIGION** yn rhedeg trwy gydol mis Mawrth. O ymuno â ni trwy lenwi ffurflen gofrestri ar ein gwefan, bydd y plant yn medru cael mynediad rhad ac am ddim at y cannoedd o e-lyfrau a llyfrau llafar gwych sydd gennym i'w cynnig fel Gwasanaeth Llyfrgell yma yng Ngheredigion - y ffordd perffaith i'r plant ddatblygu a chynnal sgiliau llythrennedd a darllen er pleser yn ystod y cyfnod clo a thu hwnt. Wedyn, pan fydd ein llyfrgelloedd yn ailagor, bydd modd iddynt ddod i ddewis o'r holl lyfrau bendigedig i blant sydd gennym ar y silffoedd.*

*Fel abwyd ychwanegol, bydd enw pob plentyn rhwng 3 ac 18 oed sy'n ymaelodi o'r newydd dros y We rhwng y 4ydd a'r 26ain o Fawrth yn cael ei roi mewn het er mwyn y cyfle i ennill iPad. Os oes plentyn eisoes yn aelod o Lyfrgell Ceredigion, dim ond eisiau anfon e-bost atom gyda'u henw a'u rhif cerdyn, a chânt hwythau hefyd rhoi'u henwau yn yr het!*

*Mae mwy o wybodaeth, ynghyd â chlipiau fideo byr sy'n sôn am yr ymgyrch a sut i ymaelodi, yn yr atodiadau.*

*Felly beth amdani? Cefnogwch Lyfrgell Ceredigion trwy annog pob plentyn yn eich ysgol i ddod yn aelod o'r Llyfrgell ar Ddiwrnod y Llyfr eleni!"*

Dr Rhodri Thomas  
Pennaeth